## Ymgynghoriad ynghylch premiwm y Dreth Gyngor CBSC

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad:** | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Rheolydd Data sydd wedi'i gofrestru gyda Swyddog y Comisiynydd Gwybodaeth.<br><br>https://ico.org.uk/ESDWebPages/Entry/Z4738791 |
| **Y Gwasanaeth a fydd yn prosesu (defnyddio) eich data personol yw:** | Y Cyngor, yn benodol Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau Conwy, fydd yn gweinyddu arolwg mewn perthynas ag ymgynghoriad pellach ar yr adolygiad arfaethedig o'r premiymau sy'n cael eu codi ar hyn o bryd ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. |
| **Y rheswm (diben) pam mae angen prosesu eich data personol yw:** | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn ei gyfarfod ar 17 Hydref 2024, yn unol ag adran 12a a 12b Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, fel y'i cynhwysid gan adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014, wedi penderfynu:<br><br>(i) Codi Premiwm Treth y Cyngor o 150% ar ail gartrefi o 1 Ebrill 2025 ymlaen.<br>(ii) Codi Premiwm Treth y Cyngor o 200% ar gartrefi gwag hirdymor a fu'n wag ers 5 mlynedd neu lai o 1 Ebrill 2025 ymlaen.<br>(iii) Codi Premiwm Treth y Cyngor o 300% ar gartrefi gwag hirdymor a fu'n wag ers 5 mlynedd neu fwy o 1 Ebrill 2025 ymlaen.<br>(iv) Cytuno ar Bremiwm dangosol o 200% ar gyfer y ddau gategori o 1 Ebrill 2026 ymlaen, gyda phremiwm uwch o 300% ar gyfer eiddo gwag hirdymor a fu'n wag am bedair blynedd neu fwy, ac adolygu'r drefn yn ystod 2025/2026. |
| **Dyma'r data personol a fydd yn cael ei gasglu a'i brosesu:** | Prif Arolwg<br><br>• Data Gwe (e.e. data lleoliad, cyfeiriad IP, briwsion)<br>• Cod post rhannol |
| **Y sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol yw:**<br><br>(gweler Lawful basis for processing \| ICO) | (a) Cydsyniad: mae'r unigolyn wedi rhoi caniatâd clir i chi brosesu ei ddata personol at ddiben penodol. |
| **Manylion unrhyw ddata categori arbennig a gesglir ac a brosesir (os o gwbl):** | Gwybodaeth cydraddoldeb (os darparwyd)<br><br>• Cefndir ethnig<br>• Rhyw<br>• Hunaniaeth rhywedd<br>• Cyfeiriadedd rhywiol<br>• Anabledd<br>• Crefydd<br><br>Mae'n bosib' y byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich cefndir ethnig, eich iaith gyntaf, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a'ch oed er mwyn casglu ystadegau am boblogaeth yr ardal a'r defnydd o'n gwasanaethau. |

| | |
|---|---|
| | Fe wneir hyn i helpu i gydymffurfio a'n goblygiadau cyfreithiol ac i gynllunio darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol.<br><br>**Pa ddata sy'n cael ei gasglu?**<br><br>Rydym ni'n casglu data ar ethnigrwydd, crefydd, statws priodasol, anabledd, rhyw, rhywioldeb – mae'r rhain oll yn nodweddion a ddiogelir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>**Pam bod arnoch chi angen y wybodaeth yma?**<br><br>Fel Cyngor mae'n bwysig ein bod ni'n gallu dal ein hunain i gyfrif fel Awdurdod Lleol cyfrifol sydd wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyfartal a theg i bawb.<br><br>Mae casglu data cywir yn sicrhau ein bod ni'n gallu gwella ein dealltwriaeth o'r bylchau sydd angen ein sylw, gan fonitro ein cynnydd fel Awdurdod Lleol mewn perthynas â gosod premiymau Treth y Cyngor yn y dyfodol.<br><br>**A fydd hyn yn ddienw?**<br><br>Fydd y data ddim yn ddienw gan ei fod yn bwysig ein bod ni'n gallu gwneud cysylltiadau er mwyn olrhain anghydraddoldeb yn y meysydd a restrwyd uchod. Fodd bynnag, gallwn eich sicrhau bod gennym ni weithdrefnau cadarn ar waith i wneud yn siŵr mai dim ond unigolion perthnasol sy'n gallu defnyddio'r wybodaeth a hynny at ddibenion cynnal dadansoddiad o'r data cydraddoldeb.<br><br>**Pwy fydd yn gweld y wybodaeth yma?**<br><br>Bydd y wybodaeth a rowch yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol ac yn cael ei defnyddio ar gyfer y diben a nodwyd uchod yn unig.<br><br>Mae gennym ni weithdrefnau cadarn ar waith i wneud yn siŵr mai dim ond unigolion perthnasol sy'n gallu defnyddio'r wybodaeth yma a hynny at ddibenion cynnal dadansoddiad o'r data cydraddoldeb; ni fydd y wybodaeth yn hygyrch i'r Awdurdod ehangach.<br><br>**A fydd fy ngwybodaeth yn ddiogel?**<br><br>Bydd. Mae yna gyfreithiau diogelu data cadarn ar waith i sicrhau ein bod ni'n diogelu eich manylion personol ac yn eu cadw'n ddiogel. |
| **Y sail gyfreithiol dros brosesu eich data categori arbennig yw:**<br><br>(gweler Special category data \| ICO) | Pan brosesir -<br>(a) Caniatâd penodol |
| **Sut/ble caiff eich data ei storio:** | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn defnyddio amrywiaeth o systemau gwahanol i storio a phrosesu eich data. Mae rhai o'r rhain yn cael eu cynnal |

| | |
|---|---|
| | yn fewnol, tra bo eraill yn cael eu cynnal gan sefydliadau trydydd parti drwy letya yn y cwmwl. |
| **Am ba hyd y bydd eich data'n cael ei gadw:** | Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn unol â'r cyfnodau cadw a gynhwysir ym Mholisïau Cadw Data / Dogfennau'r Cyngor ar gyfer pob maes data a gesglir.<br><br>Pob galwad ffôn a dderbynnir ac a wneir drwy'r adran Refeniw a Budd-daliadau<br>Caiff llinellau tir y Gwasanaeth Asesu eu cofnodi at ddibenion hyfforddi a monitro. Bydd y recordiadau o'r galwadau hyn yn cael eu cadw am 90 diwrnod.<br><br>Ni fyddwn yn cadw data personol neu ddata categori arbennig a gesglir yn ystod gweithgareddau ymgysylltu am fwy na 12 mis oni bai eich bod wedi rhoi caniatâd penodol i ni gadw eich manylion cyswllt er mwyn i ni allu cadw mewn cysylltiad neu at ddibenion marchnata yn y dyfodol. |
| **Gyda phwy y gellir rhannu eich data:** | Yn allanol gyda sefydliadau partner eraill? h.y. Cyllid a Thollau EM, yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr Heddlu, awdurdodau lleol eraill? Pob adran o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel sy'n briodol i ganlyniadau arolygon neu ffurflenni wedi eu cwblhau<br><br>Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau eraill naill ai i storio gwybodaeth bersonol neu i'n helpu i ddarparu ein gwasanaethau i chi. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwn yn teimlo bod rheswm da dros wneud hynny sy'n bwysicach na diogelu eich preifatrwydd. Er enghraifft, efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth er mwyn canfod a rhoi diwedd ar droseddu a thwyll.<br><br>Dyma'r rhai rydyn ni'n rhannu eich gwybodaeth â nhw:<br><br>• Gwasanaethau / Adrannau eraill CBSC at ddibenion y Cyngor<br>• Materion gorfodi lle bo angen.<br>• Cyrff sy'n ymchwilio i hawliadau neu'n eu prosesu<br>• Asiantaethau yn y sector cyhoeddus e.e. Yr Adran Gwaith a Phensiynau,<br>• Cyllid a Thollau EM, awdurdodau lleol eraill a chwmnïau yn y sector preifat megis<br>• asiantaethau archwilio credyd<br>• Cyrff sy'n gweithio i atal twyll a chefnogi cynlluniau twyll cenedlaethol.<br>• Cwmnïau sy'n hwyluso'r arolwg ymgynghori premiwm y Dreth Gyngor e.e. Snap<br><br>Efallai y byddwn yn defnyddio eich adborth cwsmeriaid yn ddienw ar gyfer deunydd marchnata a chyfathrebu<br><br>Mae gennym drefniadau gydag amrywiaeth o ddarparwyr TG sy'n cefnogi systemau a gwasanaethau TG y Cyngor, felly mae'n bosibl y bydd y cyflenwyr hyn yn cael mynediad at eich data. Pan fydd y trefniadau hyn gennym, mae cytundeb contract gyda nhw bob amser i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Gyfraith Diogelu Data. |
| **Eich hawliau data:** | Yn ôl y gyfraith, mae gennych amrywiaeth o hawliau dros eich data personol sy'n cynnwys: |

| | |
|---|---|
| | • yr hawl i gael gwybod<br>• yr hawl i weld y data personol sydd gennym amdanoch chi.<br>• yr hawl i gywiro unrhyw wallau yn y data personol sydd gennym.<br>• yr hawl i ddileu eich data personol pan nad oes ei angen mwyach.<br>• yr hawl mewn amgylchiadau cyfyngedig i gyfyngu ar sut mae eich data personol yn cael ei ddefnyddio.<br>• yr hawl i wrthwynebu defnyddio eich data personol.<br><br>Yn y sefyllfaoedd prin lle rydym yn dibynnu ar gydsyniad fel y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data personol, gallwch dynnu'r caniatâd hwnnw'n ôl ar unrhyw adeg.<br><br>Gweler hefyd Wasanaeth perthnasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r Hysbysiadau Preifatrwydd Llawn:<br><br>Hysbysiad Preifatrwydd Llawn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br><br>Gwella a Datblygu Corfforaethol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br><br>Hysbysiad Preifatrwydd Refeniw a Budd-daliadau - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br><br>Hysbysiad Preifatrwydd y Dreth Gyngor – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol (os oes angen)** | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi dewis Snap fel is-brosesydd i hwyluso'r arolwg. Mae mwy o fanylion ar gael isod:<br><br>Polisi Preifatrwydd - Snap Surveys |
| **Cyswllt gwasanaeth** | Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y manylion sydd yn y ddogfen hon, cysylltwch â:<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,<br>Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau,<br>Blwch Postio 1,<br>Conwy,<br>LL30 9GN |
| **Yr Uned Rheoli Gwybodaeth** | Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau eraill am sut mae eich data personol yn cael ei ddefnyddio neu os ydych chi'n dymuno arfer unrhyw rai o'ch hawliau y cyfeirir atynt uchod, cysylltwch â:<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,<br>Yr Uned Rheoli Gwybodaeth<br>Blwch Postio 1,<br>Conwy,<br>LL30 9GN<br>info-gov.unit@conwy.gov.uk<br>01492 574016/577215 |

| | |
|---|---|
| | Os ydych chi'n credu ein bod wedi methu â thrin a rheoli eich data personol yn briodol, mae gennych hawl i apelio i:<br><br>Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru 2il Lawr<br>Churchill House<br>Ffordd Churchill<br>Caerdydd<br>CF10 2HH<br>E-bost: wales@ico.org.uk |